

Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith

# Gofal gan Berthynas

## Crynodeb o'r papur ymgynghori

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith. |
| **Beth ydym yn ei wneud?** | Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'n cynigion i ddiwygio'r gyfraith sy'n rheoli gofal gan berthynas. |
| **Am beth mae'n sôn?** | Y gyfraith sy'n ymwneud â gofal gan berthynas. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn am ein cynigion amodol ac yn gofyn cwestiynau. Bydd eich safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus pan fyddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol. |
| **Gan bwy yr hoffem glywed?** | Rydym yn awyddus i gael ymatebion gan gynifer o bobl a sefydliadau â phosibl sydd â diddordeb mewn gofal gan berthynas. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n profi neu sydd wedi profi gofal gan berthynas, gofalwyr sy'n berthnasau, rhieni ac aelodau eraill o deuluoedd plant sy'n derbyn gofal gan berthynas, gwasanaethau plant awdurdodau lleol, cyfreithwyr, academyddion, gweithwyr cymdeithasol, elusennau a sefydliadau cymorth, ac unrhyw un arall sy'n gweithio yn y maes hwn neu sydd â diddordeb mewn gofal gan berthynas. |
| **Ble gallaf ddarllen y papur ymgynghori?** | Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan: **https://lawcom.gov.uk/project/kinship-care/** |

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | Mae'r ymgynghoriad yn para 14 wythnos ac yn dod i ben ar 16 Hydref 2026. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Ar ôl adolygu pob ymateb, byddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol dros ddiwygio'r gyfraith, a byddwn yn cyhoeddi'r rheini mewn adroddiad yn hydref 2027. |



## Y crynodeb hwn

Dydy'r crynodeb hwn ddim yn crynhoi pob un o'r cwestiynau na'r cynigion amodol sydd i'w gweld yn y papur ymgynghori. Yn hytrach na hynny, mae'n esbonio'r prosiect, yn rhoi rhywfaint o gyd-destun, ac yna'n tynnu sylw at y materion sylweddol sy'n cael eu trafod yn y papur ymgynghori a'n prif gynigion amodol ar gyfer diwygio.

Mae cwestiynau ymgynghori yn y papur ymgynghori nad ydynt yn cael eu trafod yn y crynodeb hwn. Cyn ymateb, hoffem eich annog i ddarllen y papur ymgynghori llawn, neu'r rhannau perthnasol ohono. Does dim rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn ein hymgynghoriad. Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio at benodau'r papur ymgynghori.

Dydy'r papur ymgynghori ddim yn cynnwys unrhyw argymhellion terfynol ar gyfer diwygio'r gyfraith. Yn hytrach, mae'n cynnwys ein cynigion amodol. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gofyn i ymgyngoreion roi eu barn am faterion lle nad ydym wedi gwneud cynigion amodol.

Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a gawn ac yn ystyried pa argymhellion y byddwn yn eu gwneud yn ein hadroddiad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Mater iddyn nhw wedyn fydd penderfynu sut i symud ymlaen â'n hargymhellion, ac i Senedd y Deyrnas Unedig a Senedd Cymru basio unrhyw Ddeddfau newydd sydd eu hangen i newid y gyfraith.



## Ymateb i'n hymgynghoriad

Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan yn: **https://lawcom.gov.uk/project/kinship-care/**. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 16 Hydref 2026.

Rydym yn eich annog i gyflwyno eich ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael drwy'r ddolen uchod. Defnyddiwch y dull hwn, os oes modd gwneud hynny.

Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau fel a ganlyn:

- drwy e-bost at **kinshipcare@lawcommission.gov.uk** neu
- drwy'r post i Kinship Care project, Property, Family and Trust Law team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London SW1H 9AG.

Os byddwch yn anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai hefyd yn ddefnyddiol eu hanfon yn electronig, os oes modd gwneud hynny.

Mae ymatebion i ymgynghoriad yn fwyaf effeithiol pan fyddwn yn gallu dweud pa ymgyngoreion sydd wedi ymateb i ni, a beth maent wedi'i ddweud.

Fodd bynnag, efallai y bydd ymgyngoreion yn dymuno i'w holl ymatebion i'r ymgynghoriad, neu rai ohonynt, gael eu trin yn gyfrinachol ac iddynt beidio â chael eu cyhoeddi na'u datgelu gennym ni. Os yw ymgyngoreion yn dymuno i'w hymateb fod yn gyfrinachol, dylent egluro pa ran o'u hymateb y maent eisiau iddi gael ei chadw'n gyfrinachol a pham. Fodd bynnag, ni allwn warantu y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Yn hytrach, efallai y bydd ymgyngoreion yn dymuno i'w hymateb fod yn ddienw, lle rydym yn cyfeirio at yr hyn sy'n cael ei ddweud ond ddim yn nodi'r ymgynghorai. Byddwn yn parchu ceisiadau i aros yn ddienw, i'r graddau y gallwn yn gyfreithiol.

Gofynnwn i ymgyngoreion osgoi cynnwys gwybodaeth bersonol a allai ddatgelu pwy yw pobl eraill – yn benodol, peidiwch â darparu gwybodaeth a allai ddatgelu pwy yw plentyn neu a allai wneud datgeliad o'r fath yn bosibl. Byddwn yn golygu unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad sy'n nodi plentyn, neu y gellid ei ddefnyddio, yn ein barn ni, ynghyd â gwybodaeth arall sydd wedi'i darparu i ddatgelu pwy yw plentyn. Byddwn yn gwneud hyn pa un a yw ymgyngoreion wedi nodi eu bod yn dymuno i'w hymateb gael ei drin yn gyfrinachol neu'n ddienw ai peidio.

I gael rhagor o fanylion am sut rydym yn delio â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, edrychwch ar yr adran "Sut rydym yn ymgynghori" ar dudalen i-ii ein papur ymgynghori.

# Beth yw gofal gan berthynas?

Mae gofal gan berthynas yn codi pan mae plentyn yn derbyn gofal gan oedolyn sydd ddim yn rhiant iddo am gyfnod sylweddol o amser. Mae'r gofalwyr hyn yn berthnasau - neiniau a theidiau gan amlaf ond hefyd yn frodyr a chwiorydd hŷn, modrybedd, ewythrod, cefndryd, perthnasau eraill, neu ffrindiau teulu. Gall trefniant gofal gan berthynas fod dros dro neu yn y tymor hirach. Gall fod amrywiaeth o resymau pam na all y rhieni ofalu am eu plentyn yn llawn amser. Yn fwyaf cyffredin, bydd gofal gan berthynas yn ddewis amgen yn hytrach na bod y plentyn yn mynd i mewn i'r system ofal, neu'n ffordd o ofalu am blentyn sy'n destun gorchymyn gofal.

Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021, amcangyfrifir bod tua 141,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn byw mewn trefniadau gofal gan berthynas gyda gofalwyr sy'n perthyn iddynt; 130,000 o blant yn Lloegr ac 11,000 yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli tua 1.1% o'r holl blant yng Nghymru a Lloegr.  Mae'r elusen Family Rights Group wedi amcangyfrif bod 23,000 yn rhagor o blant yn byw gyda gofalwyr sy'n berthnasau sydd ddim yn perthyn, fel ffrind i'r teulu.



# Mathau o ofal gan berthynas

Mae gofal gan berthynas yn gallu bod ar wahanol ffurfiau, fel rydym yn ei ddisgrifio ar y tudalennau canlynol. Mae ein prosiect yn ystyried:

- Trefniadau teuluol anffurfiol
- Gofal maeth preifat
- Gofal maeth gan berthynas
- Gorchymyn trefniadau plant
- Gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig

Mae'r math o drefniant yn effeithio ar hawliau, gan gynnwys i ba raddau y mae gofalwr yn cael cyfrifoldeb rhiant.

### Cyfrifoldeb rhiant

Mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei ddiffinio yn adran 3(1) o Ddeddf Plant 1989 fel "holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn, yn ôl y gyfraith, yng nghyswllt y plentyn a'i eiddo".

Mae cyfrifoldeb rhiant yn caniatáu i'r deiliad wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a phenderfyniadau mwy arwyddocaol am fagwraeth y plentyn, gan gynnwys ble a gyda phwy y dylai'r plentyn fyw, natur addysg a chrefydd y plentyn, a thriniaeth feddygol y plentyn.

Mae gan rieni plentyn gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Ni fydd gan ofalwr sy'n berthynas gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn oni bai ei fod wedi cael gorchymyn llys yn ei roi iddo.

## Trefniadau teuluol anffurfiol

Nid yw trefniadau teuluol anffurfiol yn cael eu rheoleiddio na'u diffinio gan y gyfraith. Maent yn digwydd pan mae plentyn yn cael ei fagu gan berthynas, pan nad oes gorchymyn llys mewn grym ac nad yw'r awdurdod lleol wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o wneud y trefniant ar gyfer y plentyn. Mae'r cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael ei gadw gan rieni'r plentyn, a all ei ddirprwyo i'r gofalwr sy'n berthynas i'w alluogi i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

## Gofal maeth preifat

Mae gofal maeth preifat yn cael ei ddisgrifio yn adran 66 o Ddeddf Plant 1989, sy'n diffinio plentyn sy'n cael ei faethu'n breifat. Y diffiniad yw plentyn o dan 16 oed (neu 18 oed os yw'n anabl), sy'n derbyn gofal gan rywun sydd ddim yn rhiant, yn berthynas neu'n berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, yng nghartref y person hwnnw, am fwy na 28 diwrnod. Mae'n ofynnol i berson sy'n maethu plentyn yn breifat hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn gwneud hynny.

Mae'r cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cael ei gadw gan rieni'r plentyn, a all ei ddirprwyo i'r gofalwr sy'n berthynas i'w alluogi i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

### Diffiniad o berthynas

Mae "Perthynas" yn cael ei ddiffinio yn adran 105 o Ddeddf Plant 1989 i olygu, mewn perthynas â phlentyn, "nain neu daid, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (boed o waed llawn neu hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) neu lys-riant". Dyma ystyr perthynas rydym yn ei ddefnyddio yn y crynodeb hwn ac yn ein papur ymgynghori.

## Gofal maeth gan berthynas

Mae gofal maeth gan berthynas yn digwydd pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda gofalwr sy'n deulu neu'n ffrind ac sydd wedi'i gymeradwyo fel gofalwr maeth awdurdod lleol, gyda chyfraniad yr awdurdod lleol. Mae'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, ac mae naill ai'n destun gorchymyn gofal, neu'n cael ei letya gan yr awdurdod lleol gyda chytundeb rhieni.

Nid oes gan ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyfrifoldeb rhiant.  Mae'r rhieni'n cadw'r cyfrifoldeb rhiant, ond os yw'r plentyn o dan orchymyn gofal interim neu derfynol, mae'r awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda'r rhieni, a gall benderfynu sut y dylid arfer cyfrifoldeb rhiant.

## Gorchymyn trefniadau plant

Mae gorchymyn trefniadau plant yn cael ei wneud o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989 ac mae'n rheoleiddio gyda phwy y mae plentyn yn byw, a gyda phwy y mae plentyn yn treulio amser neu fel arall yn cael cyswllt.

Yng nghyd-destun gofal gan berthynas, bydd gorchymyn trefniadau plant fel arfer yn nodi bod plentyn i fyw gyda'r gofalwr sy'n berthynas, ac efallai y bydd hefyd yn rheoleiddio'r cyswllt y mae'r plentyn i'w gael gyda'i rieni.

Mae modd gwneud gorchymyn trefniadau plant am unrhyw gyfnod ond bydd yn dod i ben pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed. Mae deiliad gorchymyn trefniadau plant "byw gyda" yn cael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae rhieni'r plentyn yn cadw eu cyfrifoldeb rhiant.

## Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn cael ei wneud o dan adran 14A o Ddeddf Plant 1989. Mae'n penodi person sydd ddim rhiant i'r plentyn i fod yn "warcheidwad arbennig" iddo. Bydd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn para nes bydd y plentyn yn 18 oed. Mae'r rhan fwyaf o orchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn penodi gofalwyr sy'n berthnasau yn warcheidwaid arbennig.

Mae gwarcheidwad arbennig yn cael "cyfrifoldeb rhiant estynedig" y gall ei ddefnyddio gan eithrio deiliaid cyfrifoldeb rhiant eraill. Bydd rhieni'r plentyn yn cadw eu cyfrifoldeb rhiant, ond gall y gwarcheidwad arbennig wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau heb iddynt orfod cytuno.

Mae gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn gallu cael eu gwneud mewn achosion cyfraith breifat, lle nad yw awdurdodau lleol yn ymwneud â'r achos, ond gallant gael eu gwneud ar ddiwedd achosion gofal cyfraith gyhoeddus hefyd (a hynny sy'n digwydd yn amlach na pheidio).

## Mabwysiadu gan berthynas

Mae mabwysiadu gan berthynas yn digwydd pan mae gorchymyn yn rhoi cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i fabwysiadwr a oedd yn ffrind neu'n aelod o deulu'r plentyn cyn gwneud y gorchymyn. Y gofalwyr sy'n berthnasau yw rhieni cyfreithiol y plentyn. Mae mabwysiadu gan berthynas yn beth prin. Mae diwygio cyfraith mabwysiadu y tu allan i gwmpas ein prosiect gofal gan berthynas.

# Problemau gyda'r gyfraith bresennol

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli gofal gan berthynas a'r prosesau cysylltiedig yn gallu arwain at amrywiaeth mewn hawliau i deuluoedd, ac nid yw bob amser yn hybu lles y plentyn. Mae modd defnyddio amrywiaeth o orchmynion cyfraith breifat a chyhoeddus i reoleiddio gofal gan berthynas, gyda chanlyniadau gwahanol iawn.

Rydym wedi clywed am nifer o heriau sy'n wynebu gofalwyr sy'n berthnasau, yn fwyaf arbennig o ran y ffordd y mae'r system bresennol yn ymdrin â threfniadau gofal gan berthynas, y prosesau dan sylw, ac arfer yr hawliau sy'n cael eu rhoi i ofalwyr sy'n berthnasau o dan wahanol fathau o drefniadau.

Rydym hefyd wedi clywed pryderon am gyllid a chymorth i deuluoedd sy'n berthnasau – fodd bynnag, mae cyllid y tu allan i gwmpas ein prosiect gofal gan berthynas.

## Materion yn ymwneud â statws cyfreithiol, argaeledd hawliau, ac asesu

- **Cyfrifoldeb Rhiant** – mae p'un a yw gofalwr sy'n berthynas yn cael cyfrifoldeb rhiant (ac a yw'n gallu ei ddefnyddio i eithrio cyfrifoldeb rhiant y rhieni) yn dibynnu ar y math o orchymyn cyfreithiol sy'n cydnabod y trefniant. Bydd rhieni'r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant. Mae angen i'r ffordd y mae'r rhai sy'n gysylltiedig yn arfer cyfrifoldeb rhiant gael ei reoli er lles gorau'r plentyn.
- **Sefydlogrwydd** – mae'r system bresennol yn rhoi pwyslais ar ddealltwriaeth o "sefydlogrwydd" fel ateb tymor hir i fodloni anallu presennol y rhieni i ofalu am blentyn. Mae hyn yn gallu effeithio ar y dewis o orchymyn cyfreithiol (er enghraifft, ffafrio gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig), ac mae'n gallu ei gwneud yn anoddach i'r plentyn gael ei ailintegreiddio i ofal ei rieni, lle mae modd gwneud hyn yn ddiogel.
- **Cyswllt** – mae'n gallu bod yn anodd rheoli'r berthynas rhwng y plentyn a'i rieni (ac aelodau ehangach o'r teulu), yn enwedig gan ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i'r gofalwr sy'n berthynas reoli ei berthynas ei hun â rhiant y plentyn hefyd, neu efallai y bydd yn cael ei gam-drin ganddynt.
- **Anghydraddoldeb** – mae tystiolaeth i awgrymu bod rhagfarnau diwylliannol a hiliol hefyd yn gallu bod ar waith wrth ystyried sut mae gofal gan berthynas yn cael ei ffurfioli, a'r math o orchymyn sy'n cael ei gefnogi gan awdurdodau lleol.
- **Diffyg diffiniad** – tan yn ddiweddar, pan gyflwynodd Deddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026 ddiffiniad o ofal gan berthynas yn Lloegr, nid oedd diffiniad statudol o ofal gan berthynas. Nid oes diffiniad statudol yng Nghymru. Mae'r diffyg diffiniad yn gallu arwain at ddiffyg gwelededd neu ddealltwriaeth anghyson o bryd mae gofal gan berthynas yn digwydd, gan olygu nad yw bob amser yn cael ei gydnabod a'i gefnogi.
- **Cyffredinrwydd trefniadau anffurfiol** – nid yw'r rhan fwyaf o drefniadau gofal gan berthynas yn cael eu ffurfioli gan orchymyn na drwy gyfranogiad yr awdurdod lleol. Efallai y bydd angen cydnabod rhai o'r trefniadau anffurfiol hyn drwy roi cyfrifoldeb rhiant i ofalwyr sy'n berthnasau, mewn ffordd lle nad oes angen cyfraniad y llysoedd neu awdurdod lleol, lle mae hynny'n ddiogel i'r plentyn.
- **Prosesau asesu** – mae asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau wedi cael ei feirniadu am gael ei gynllunio ar gyfer sefyllfaoedd sydd ddim yn ymwneud â pherthynas, a bod yn amhriodol neu'n ymwthiol yng nghyd-destun gofal gan berthynas; mae gofalwyr sy'n

berthnasau yn gallu methu asesiad o ganlyniad. Mae beirniadaethau tebyg yn cael eu gwneud o broses asesu gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu dulliau gwahanol o asesu ac i ba raddau y maent yn ystyried ffactorau sy'n benodol i berthynas. Mae darparu gwybodaeth i ddarpar ofalwyr sy'n berthnasau hefyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol.

**Ein dull o ddiwygio gorchmynion llys presennol**

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion rydym wedi'u nodi gyda gweithredu gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gorchmynion trefniadau plant, y llwybr diwygio rydym yn ei ffafrio yw cyflwyno gorchymyn gofal gan berthynas newydd sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau yn unig, a fyddai'n cymryd lle gorchmynion trefniadau plant a gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau (tudalennau 12-16).

Fel arall, rydym yn gwneud cynigion amodol i ddiwygio gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gorchmynion trefniadau plant, sy'n ceisio datrys y materion hynny o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol (tudalennau 10).

## Diffiniad statudol o ofal gan berthynas

Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad statudol o ofal gan berthynas ledled Cymru a Lloegr. Mae Pennod 3 y papur ymgynghori yn nodi ein cynigion amodol ar gyfer diffiniad o'r fath.

Cyflwynwyd diffiniad o ofal gan berthynas yn ddiweddar fel adran 22I o Ddeddf Plant 1989 gan Ddeddf Llesiant Plant ac Ysgolion 2026.

Dim ond yn Lloegr y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol, ac mae'n cael ei grynhoi yn y blwch ar y dudalen hon.

Rydym o'r farn bod modd mabwysiadu'r diffiniad hwn at ddibenion y diwygiadau rydym yn eu cynnig yn ein papur ymgynghori, a fyddai'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, nid yw'r diffiniad newydd yn berthnasol i unrhyw un o'r gorchmynion o dan Ddeddf Plant 1989.

Rydym yn cynnig yn amodol defnyddio'r diffiniad o ofal gan berthynas sydd i'w gael yn adran 22I o Ddeddf Plant 1989 at ddibenion ein gorchymyn gofal gan berthynas arfaethedig a chytundebau cyfrifoldeb rhiant gan berthynas (gweler tudalennau 12 a 17 o'r crynodeb hwn), gyda rhai gofynion cymhwysedd ychwanegol ar gyfer pob un, i wneud y diffiniad yn ymarferol yn y cyd-destunau hynny.

Mae gofalwr sy'n berthynas yn berthynas, yn ffrind neu'n berson arall sydd â chysylltiad â phlentyn, y mae'r plentyn naill ai'n byw gydag ef drwy'r amser, neu am fwy o amser nag y mae'r plentyn yn byw gyda rhiant, ac sy'n darparu'r holl ofal a chymorth i'r plentyn, neu fwy o ofal a chymorth na'r hyn sy'n cael ei roi i'r plentyn gan riant.

At ddibenion y diffiniad hwn, ni all "person â chysylltiad â'r plentyn" fod yn rhiant i'r plentyn, yn rhiant maeth awdurdod lleol i'r plentyn nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad â'r plentyn cyn i'r plentyn gael ei leoli gyda'r person hwnnw, nac yn berson sy'n gofalu am y plentyn mewn swyddogaeth broffesiynol.

**Diwygio gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gorchmynion trefniadau plant**

Rydym yn gwneud nifer o gynigion amodol mewn perthynas â'r gorchmynion cyfreithiol presennol mewn perthynas â gofal gan berthynas, ac yn crynhoi'r cynigion allweddol isod. Mae rhai cynigion yn berthnasol i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gorchmynion trefniadau plant, ac eraill i un math o orchymyn yn unig.

- **Ailuno posibl** – mae tensiynau rhwng darparu sefydlogrwydd i'r plentyn, a'r posibilrwydd o ailuno rhwng y plentyn a'r rhieni, ar adeg pan mae'r rhiant yn gallu ailddechrau gofalu am ei blentyn yn ddiogel. Mae hwn yn fater penodol mewn gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig, sy'n para nes bydd y plentyn yn 18 oed. Rydym yn cynnig yn amodol, wrth wneud gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu orchmynion trefniadau plant sy'n llywodraethu trefniant gofal gan berthynas, y dylai'r llys ystyried y potensial i'r plentyn gael ei ailintegreiddio i ofal ei rieni yn y dyfodol.
- **Cymorth ar gyfer cyswllt rhwng plentyn a rhieni** – rydym yn cynnig yn amodol y dylai Llywodraeth y DU ystyried diwygio'r canllawiau ar Gynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig i bwysleisio pa mor bwysig yw hi i awdurdodau lleol ystyried pa gymorth sydd ei angen i gefnogi cyswllt rhwng plentyn sy'n derbyn gofal gan berthynas o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig a'i rieni.
- **Diogelu sefydlogrwydd lleoliadau** – rydym yn cydnabod bod sefydlogrwydd y trefniant gofal gan berthynas yn hanfodol. Rydym felly'n cynnig yn amodol, wrth wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn trefniadau plant, y dylai fod dyletswydd ar y llys i ystyried a fyddai'n briodol gwneud gorchymyn sy'n mynnu bod unrhyw un ar wahân i'r gofalwr sy'n berthynas yn cael caniatâd gan y llys cyn iddynt wneud unrhyw geisiadau dilynol am orchymyn trefniadau plant, camau gwaharddedig neu orchymyn mater penodol. Gallai hyn helpu i ddiogelu gofalwyr sy'n berthnasau rhag ceisiadau dro ar ôl tro sy'n herio'r trefniant gofal gan berthynas.
- **Gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig interim** – Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn bosibl i lys wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig interim pan fydd gofal gan berthynas yn cael ei godi mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Byddai hyn yn galluogi'r plentyn i fyw gyda'r darpar warcheidwad arbennig, ac yn caniatáu i anghenion cymorth y plentyn a'r gwarcheidwad arbennig gael eu hasesu cyn gwneud y gorchymyn terfynol.
- **Gofynion caniatâd ar gyfer gorchmynion trefniadau plant** – rydym yn cynnig yn amodol, wrth wneud cais am orchymyn trefniadau plant, na ddylai gofalwr sy'n berthynas (o fewn y diffiniad rydym yn ei gynnig) orfod cael caniatâd y llys yn gyntaf. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i ofalwyr sy'n berthnasau geisio cael gorchmynion trefniadau plant.
- **Adolygu** – rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ynghylch a fyddai'n ddefnyddiol pe gallai'r llys atodi gofyniad adolygu i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, er mwyn sicrhau mai'r gorchymyn yw'r ateb gorau o hyd i hybu lles y plentyn. Rydym yn credu y gallai adolygiad hefyd fod yn ddefnyddiol i alluogi llais plentyn i gael ei glywed.

# Diwygio gofal maeth gan berthynas

Mae Deddf Llesiant ac Ysgolion Plant 2026 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr i gynnig gwneud penderfyniadau grŵp teuluol i gefnogi'r gwaith o nodi gofalwyr posibl sy'n berthnasau mewn teulu sydd angen cymorth. Pan fydd aelod o'r teulu yn cael ei nodi, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal asesiad hyfywedd cychwynnol i benderfynu a allant gynnig lleoliad ymarferol i'r plentyn. Fodd bynnag, mae'r broses asesu'n wahanol rhwng Cymru a Lloegr, a rhwng awdurdodau lleol ym mhob gwlad. Ar ben hynny, mae awdurdodau lleol yn tueddu i ddefnyddio meini prawf asesu ar gyfer maethu nad yw'n ymwneud â theuluoedd, ac mae rhai'n honni nad ydynt yn addas i sefyllfa gofal gan berthynas.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, rydym yn cynnig yn amodol y dylai rheoliadau gofal maeth yn Lloegr gael eu haddasu i gyfeirio'n benodol at agweddau perthnasol ar ofal gan berthynas, fel sydd wedi cael ei wneud yn ddiweddar yng Nghymru. Er mwyn gwella cysondeb, rydym yn cynnig yn amodol bod pob awdurdod lleol yn defnyddio dull rhagnodedig o asesu ar gyfer darpar ofalwyr maeth. Yn olaf, er mwyn cydnabod nodweddion penodol gofal maeth gan berthynas, rydym yn cynnig yn amodol ymweliadau ac adolygiadau llai aml o leoliadau gofal maeth gan berthynas lle nad oes pryderon diogelu

.



## Nodweddion allweddol gorchymyn gofal gan berthynas

Mae'r tabl isod yn dangos prif nodweddion ein gorchymyn gofal gan berthynas arfaethedig.

| | |
|---|---|
| **Lles y plentyn** | Byddai lles y plentyn yn hollbwysig. Mae hyn yn golygu pan fydd y llys yn penderfynu a ddylid caniatáu, amrywio neu ddiddymu gorchymyn gofal gan berthynas, lles y plentyn fyddai'r ffactor unigol pwysicaf ym mhenderfyniadau'r llys. |
| **Gwarcheidwad sy'n berthynas** | Byddai'r gorchymyn gofal gan berthynas yn penodi gofalwr sy'n berthynas fel "gwarcheidwad sy'n berthynas" i'r plentyn. Dim ond i ofalwyr sy'n berthnasau dros 18 oed sydd wedi gofalu am y plentyn am o leiaf 28 diwrnod y byddai gorchymyn gofal gan berthynas ar gael. Os na all ffrind, perthynas neu berson arall sydd â chysylltiad â'r plentyn fodloni'r gofynion hyn, rydym yn cynnig y gallent, gyda chaniatâd y llys, wneud cais am orchymyn gofal gan berthynas interim (gweler y dudalen ganlynol). |
| **Trefniadau byw** | Byddai'r gorchymyn gofal gan berthynas yn rheoleiddio trefniadau byw'r plentyn. Byddai'r gorchymyn yn nodi y bydd y plentyn yn byw gyda'r gwarcheidwad sy'n berthynas. Os nad yw'r plentyn i fyw gyda'r gwarcheidwad sy'n berthynas drwy'r amser, bydd y gorchymyn yn esbonio pryd y bydd y plentyn yn byw yno. |
| **Perthynas y plentyn â'i rieni** | Wrth wneud gorchymyn gofal gan berthynas, byddai angen i'r llys ystyried perthynas y plentyn â'i rieni. Bydd y gorchymyn gofal gan berthynas yn nodi i ba raddau y bydd y plentyn yn byw gyda'i rieni, yn treulio amser gyda nhw, neu'n cael cyswllt fel arall â nhw. Lle bo'n briodol, dylai gorchymyn gofal gan berthynas hefyd ei gwneud yn glir y dylai plentyn gael cyswllt ag aelodau eraill o'r teulu sy'n bwysig iddo. |
| **Cyfrifoldeb rhiant** | Bydd gwarcheidwad sy'n berthynas yn cael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Byddai angen i'r llys ystyried sut y dylid rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn rhwng y gwarcheidwad sy'n berthynas a'r rhieni. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, gall y llys hefyd roi mwy o gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i berson sy'n cael ei enwi yn y gorchymyn gofal gan berthynas, sy'n golygu cyfrifoldeb rhiant y mae modd ei ddefnyddio i eithrio deiliaid cyfrifoldeb rhiant eraill. |
| **Hyd** | Byddai gan orchymyn gofal gan berthynas hyd hyblyg, yn ôl penderfyniad y llys adeg gwneud y gorchymyn. Byddai modd ei wneud am gyfnod penodol, lle mae disgwyliad na fydd angen i'r trefniant gofal gan berthynas bara am gyfnod amhenodol, neu nes bydd y plentyn yn 18 oed, mewn amgylchiadau lle mae angen gofal hirdymor. |

| | |
|---|---|
| **Gorchymyn gofal gan berthynas interim** | Byddai modd gwneud gorchymyn gofal gan berthynas interim yn ystod achosion lle bo angen, gan ganiatáu i'r llys benodi gwarcheidwad sy'n berthynas i ofalu am y plentyn dros dro tra bo trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer ei ofal tymor hirach. Byddai gorchymyn interim mewn grym am gyfnod a fyddai'n cael ei bennu yn y gorchymyn, yn ddarostyngedig i uchafswm cyfnod, a byddai'n dod i ben pan fyddai'r plentyn yn cyrraedd 18 oed. |
| **Cymorth** | Pan fydd awdurdod lleol yn ymwneud ag achos, byddai gorchymyn gofal gan berthynas yn nodi'r cymorth y mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i'w ddarparu i'r plentyn, y gwarcheidwad sy'n berthynas, a'r rhieni. Dylid rhoi Cynllun Cymorth Gofal gan Berthynas ynghlwm wrth y gorchymyn gofal gan berthynas. |



# Rhyngweithio rhwng gorchmynion gofal gan berthynas a gorchmynion eraill

Ein nod wrth gynnig cyflwyno gorchmynion gofal gan berthynas dros dro fel gorchymyn pwrpasol ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau yw ei gwneud hi'n haws i deuluoedd sy'n berthnasau ddeall a defnyddio'r gyfraith, a darparu gorchymyn sy'n addas i amgylchiadau'r teulu unigol.

Rydym yn bwriadu i orchmynion gofal gan berthynas ddisodli'r gorchmynion cyfraith breifat presennol sy'n rheoli gofal gan berthynas – hynny yw, gorchmynion trefniadau plant a gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Fodd bynnag, ni fydd gorchmynion gofal gan berthynas yn disodli gorchmynion gofal cyfraith gyhoeddus, a allai arwain at leoliad gyda gofalwr maeth sy'n berthynas.


O dan ein cynigion amodol, ni fydd gofalwyr sy'n berthnasau a fyddai'n gallu gwneud cais am orchymyn gofal gan berthynas yn gymwys i wneud cais am orchymyn trefniadau plant neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn perthynas â'r plentyn y maent yn gofalu amdano. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar ofalwyr sy'n berthnasau sydd eisoes â gorchymyn trefniadau plant neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Tra bo gorchymyn gofal gan berthynas mewn grym, dylid cyfeirio at y gorchymyn gofal gan berthynas wrth wneud penderfyniadau am y plentyn – mae hyn yn golygu na fydd yn bosibl i unrhyw un wneud cais am orchymyn trefniadau plant, gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gorchymyn camau gwaharddedig neu orchymyn mater penodol mewn perthynas â'r plentyn.

Os yw person yn dymuno newid y trefniadau byw ar gyfer y plentyn, neu'n dymuno i gyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â'r plentyn gael ei arfer mewn ffordd benodol (er enghraifft, penderfyniad ynghylch triniaeth feddygol y plentyn), dylent wneud cais i'r llys am gyfarwyddiadau ynghylch sut y bydd darpariaethau'r gorchymyn gofal gan berthynas yn gweithredu yn yr achos penodol hwnnw, neu dylent wneud cais i'r llys i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn gofal gan berthynas.

Os nad oes gorchymyn gofal gan berthynas mewn grym, gall pobl (ac eithrio gofalwr sy'n berthynas a fyddai'n gymwys i wneud cais am orchymyn gofal gan berthynas) wneud cais am orchymyn trefniadau plant, gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gorchmynion camau gwaharddedig a gorchmynion mater penodol mewn perthynas â'r plentyn, yn union fel y gallant ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn cynnig yn amodol, lle bo'r plentyn yn destun gorchymyn gofal cyfraith gyhoeddus, y dylai fod yn bosibl i'r gorchymyn gofal hwnnw barhau pan fydd gorchymyn gofal gan berthynas interim yn cael ei wneud. Byddai hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol barhau i gymryd rhan nes bod y trefniadau ar gyfer y plentyn wedi'u cwblhau. Rydym yn cynnig yn amodol y byddai'r gorchymyn gofal yn dod i ben pan fydd y gorchymyn gofal gan berthynas terfynol yn cael ei wneud. Byddai'r llys yn penderfynu sut y byddai cyfrifoldeb rhiant ar gyfer y plentyn yn cael ei arfer gan yr awdurdod lleol, gwarcheidwad sy'n berthynas, rhieni neu unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant yn ystod y cyfnod tra bo gorchymyn gofal a gorchymyn gofal gan berthynas interim ill dau mewn grym.


A oes Gorchymyn Gofal gan Berthynas mewn grym?
√
X
Amrywio neu ddiddymu Gorchymyn Gofal gan Berthynas
Ydych chi'n ofalwr sy'n berthynas?
√
X
Ydych chi'n gymwys i gael Gorchymyn Gofal gan Berthynas?
Gorchmynion cyfreithiol eraill
√
X
Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig
Gorchymyn Gofal gan Berthynas – Dros Dro
Gorchymyn Trefniadau Plentyn
Gorchymyn Gofal gan Berthynas
Gorchymyn Mater Penodol
Gorchymyn Camau Gwaharddedig

## Y broses asesu ar gyfer gorchymyn gofal gan berthynas

Byddai'r broses asesu sydd ei hangen i gael gorchymyn gofal gan berthynas yn adlewyrchu amgylchiadau'r achos ac yn dibynnu ar nodweddion y gorchymyn gofal gan berthynas sy'n cael ei geisio. Rydym yn glir y dylai unrhyw fath o asesiad ar gyfer gorchymyn gofal gan berthynas sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, nid ydym wedi gwneud cynigion amodol am y broses a ddylai gael ei defnyddio mewn cais gorchymyn gofal gan berthynas i asesu addasrwydd y trefniant gofal gan berthynas i fodloni anghenion y plentyn. Yn hytrach, rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion. Yn benodol, rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion am eu barn ar y canlynol:

- pwy ddylai baratoi unrhyw asesiad neu adroddiad;
- a ddylai fod yn ofynnol hysbysu'r awdurdod lleol cyn gwneud cais am orchymyn gofal gan berthynas, ac, os felly, beth ddylai'r gofyniad hwnnw fod; a
- beth ddylai gael ei gynnwys mewn unrhyw asesiad neu adroddiad, ac i ba raddau y dylai hyn amrywio yn dibynnu ar nodweddion y gorchymyn gofal gan berthynas y mae cais yn cael ei wneud amdano.



## Cytundebau cyfrifoldeb rhiant i berthnasau

Nid yw llawer o ofalwyr sy'n berthnasau yn ceisio gorchmynion llys i reoleiddio'r trefniant gofal gan berthynas, ac nid ydynt chwaith yn gofalu am blentyn fel gofalwr maeth sy'n berthynas wedi'i gymeradwyo gan awdurdod lleol. Ni fydd gan ofalwr sy'n berthynas mewn trefniant anffurfiol o'r fath gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Gallai ei gwneud yn bosibl i rieni'r plentyn roi cyfrifoldeb rhiant i'r gofalwr sy'n berthynas drwy gytundeb ei gwneud yn haws i ofalwyr sy'n berthnasau ofalu am y plentyn, drwy ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau am fagwraeth y plentyn a fyddai fel arall yn gofyn am gyfrifoldeb rhiant. Gallai hefyd ei gwneud yn haws i ofalwyr sy'n berthnasau ymgysylltu â gwasanaethau fel meddygon ac ysgolion.

### Cytundebau cyfrifoldeb rhiant i lys-rieni

O dan y gyfraith bresennol, gall llys-riant sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil ag un o rieni'r plentyn ymrwymo i gytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda rhieni'r plentyn. Mae'r cytundeb cyfrifoldeb rhiant, a phrawf o bwy yw pawb, yn cael eu ffeilio yn y Llys Teulu Canolog ac yna mae'r llys yn selio'r cytundeb i ddangos ei fod wedi cael ei gydnabod a'i gofnodi gan y llys. Mae'r cytundeb cyfrifoldeb rhiant yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i lys-riant y plentyn ac mae'n para hyd nes y bydd y plentyn yn 18 oed, oni bai fod y cyfrifoldeb rhiant yn cael ei ddileu drwy orchymyn llys.

**Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn bosibl i ofalwr sy'n berthynas gael "cytundeb cyfrifoldeb rhiant i berthynas" gyda rhieni'r plentyn**. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai fod cyfyngiadau ar ba ofalwyr sy'n berthnasau sy'n gwneud cais am gytundeb cyfrifoldeb rhiant i berthnasau. Yn ein barn ni, mae rhoi cyfrifoldeb rhiant i unrhyw un heb gyfyngiad yn peri pryder diogelu rhy fawr, o ystyried nad ydym yn cynnig bod y llys na'r awdurdod lleol yn ymchwilio i sefyllfa'r plentyn cyn gwneud cytundeb.

Felly, rydym yn cynnig yn amodol y dylai cytundebau cyfrifoldeb rhiant i berthnasau fod ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau (o fewn y diffiniad a gynigiwn) sydd hefyd yn berthnasau i'r plentyn, o fewn ystyr Deddf Plant 1989 – perthnasau agos i bob pwrpas. Fel llys-riant, mae gofalwyr sy'n berthnasau o'r fath eisoes yn rhan o deulu'r plentyn.

Rydym o'r farn na fydd rhieni mewn sefyllfa gofal gan berthynas bob amser eisiau rhoi cyfrifoldeb rhiant dros eu plentyn i ofalwr sy'n berthynas sy'n parhau nes bydd y plentyn yn 18 oed neu nes bydd y llys yn gwneud gorchymyn i ddileu'r cyfrifoldeb rhiant, fel sy'n wir am gytundeb cyfrifoldeb rhiant llys-riant. Efallai y byddant yn dymuno i'r gofalwr sy'n berthynas ofalu am y plentyn am gyfnod llawer byrrach. Felly, rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn bosibl gwneud cytundeb cyfrifoldeb rhiant i berthynas am gyfnod penodol, gydag isafswm cyfnod o flwyddyn.

Rydym hefyd yn cynnig yn amodol y dylai fod yn bosibl i gytundeb cyfrifoldeb rhiant i berthynas ddod i rym pan fydd y gofalwr sy'n berthynas yn dechrau gofalu am y plentyn dan sylw. Byddai hyn yn galluogi rhieni i wneud cynlluniau ar gyfer pwynt hysbys yn y dyfodol pan na fyddant yn gallu gofalu am eu plentyn; er enghraifft, os oes rhaid iddynt gael triniaeth yn yr ysbyty, neu weithio dramor.

# Cynhwysiant ac amrywiaeth

Rydym yn awyddus i ddeall unrhyw wahaniaethau posibl yn y ffordd y mae teuluoedd o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac amgylchiadau gwahanol yn profi'r gyfraith bresennol sy'n rheoli gofal gan berthynas.

Yn ein hymgynghoriad, rydym yn gofyn i ymgyngoreion ddweud wrthym a ydynt yn credu neu a oes ganddynt dystiolaeth neu ddata i awgrymu naill ai bod gweithredu'r gyfraith bresennol sy'n llywodraethu gofal gan berthynas, neu'r cynigion amodol rydym yn eu gwneud yn y papur ymgynghori, yn arwain at fanteision neu anfanteision i grwpiau penodol. Y grwpiau penodol rydym yn cyfeirio atynt yw'r rhai sy'n seiliedig ar nodweddion fel oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rydym hefyd yn gwahodd ymgyngoreion i roi unrhyw farn sydd ganddynt ar sut mae modd lleihau neu ddileu unrhyw wahaniaethau yng ngweithrediad y gyfraith bresennol sy'n rheoli gofal gan berthynas.



## Y camau nesaf

Mae'r cynigion amodol yn ein papur ymgynghori ar ofal gan berthynas yn gyfle i symleiddio'r gorchmynion sy'n sail i leoliadau gofal gan berthynas. Mae cyhoeddi'r crynodeb hwn a'r papur ymgynghori yn nodi dechrau cyfnod o ymgynghori ffurfiol lle byddwn yn ymgysylltu ag ystod eang ac amrywiol o randdeiliaid i annog ymatebion i'r cynigion amodol rydym yn eu gwneud ac i'r cwestiynau rydym yn eu gofyn.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i wneud argymhellion terfynol sy'n adlewyrchu profiadau plant a theuluoedd sy'n rhan o drefniadau gofal gan berthynas a'r rhai sy'n eu cefnogi.

### Credydau lluniau

Clawr: Daniel Balakov/iStock

Tudalen 3: Mediaphotos/iStock

Tudalen 4: kate_sept2004/iStock

Tudalen 5: Sneksy/iStock

Tudalen 11: AleksandarNakic/iStock

Tudalen 13: Kobus Louw/iStock

Tudalen 16: peakSTOCK/iStock

Tudalen 17: Wavebreakmedia/iStock

Tudalen 18: FatCamera/iStock



102

Find out more at design102.co.uk
**Design that makes a difference**